

NEWYDDLEN I'R SECTOR ÔL-16



Ionawr 2020



CYFLE I STAFF ADDYSG BELLACH DDYSGU'R GYMRAEG

Mae Cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach a reolir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a Cholegau Cymru yn mynd o nerth i nerth. Eleni, mae pob Coleg Addysg Bellach yng Nghymru yn elwa o'r cynllun ac erbyn hyn mae dros 250 wedi cofrestru i fod yn rhan ohono.

Bwriad y cynllun Cymraeg Gwaith yw rhoi'r cyfle i ddarlithwyr mewn colegau Addysg Bellach ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle. Wrth gwblhau 120 awr yr un, mae'r darlithwyr yn manteisio ar wersi ffurfiol, oriau un i un gyda'r tiwtor iaith, tasgau gwaith cartref a diwrnodau iaith. Ym mis Rhagfyr llynedd, holwyd barn y staff ynghylch y cyrsiau lle nodwyd mai codi hyder yn y Gymraeg yw'r prif reswm dros fynychu a datblygu sgiliau dwyieithog, gyda thros hanner ohonynt yn awyddus i ddatblygu sgiliau ieithyddol er datblygiad gyrfa.

Noda un dysgwr eu bod yn "ddiolchgar iawn am y cyfle i ddysgu Cymraeg mewn amgylchedd mor gefnogol a hwyl gyda fy nghyfoedion a thiwtor ysbrydoledig".

Os hoffech chi glywed mwy am y Cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach, cysylltwch â Nia Brodrick: nia.brodrick@colegaucymru.ac.uk.

ADNODDAU ÔL-16 YN AWR AR GAEL AR LYFRGELL ADNODDAU'R COLEG



Mae adnoddau Cymraeg ôl-16 bellach i'w gweld ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg ac ar gael, yn agored, i'w defnyddio i bawb. Bydd pob adnodd a gomisiynir gan y Coleg o hyn allan ar gael yn y Llyfrgell Adnoddau.

CYNHADLEDD IECHYD A GOFAL

Bydd Cynhadledd Iechyd a Gofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2020 yn digwydd ar gampws Prifysgol Abertawe yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sadwrn Mawrth 21 o 11.00am tan 5.00pm.

Byddwn yn gwahodd darpar fyfyrwyr o Golegau Addysg Bellach a blwyddyn 12 o bob rhan o Gymru i'r digwyddiad fydd yn gyfle iddynt ddysgu am wahanol swyddi o fewn y maes iechyd. Ein gobaith yw rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol/clinigol er mwyn cael blas ar waith ymarferwyr proffesiynol ac i ddysgu hefyd am bwysigrwydd y Gymraeg yn y maes.

Os hoffech fwy o fanylion cysylltwch â Menai Evans: m.evans@colegcymraeg.ac.uk.



CYFLE I DDOD I ADNABOD HAZEL THOMAS, SWYDDOG HYFFORDDI GYDA CHWMNI CAMBRIAN

Enw: Hazel Thomas

Maes: Swyddog Hyfforddiant

Dweda ychydig am dy gefndir?

Dwi'n gweithio fel Swyddog Hyfforddi, yn cefnogi dysgwyr sydd yn dilyn prentisiaeth mewn Lletygarwch. Fel rhan o'r swydd ac fel rhywun sy'n medru'r Gymraeg rwyf hefyd yn un o Bencampwyr Cymraeg Cwmni Cambrian. Mae'r Cwmni'n awyddus i helpu unrhyw ddysgwyr sydd yn dymuno cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth yw'r IQA a pham oeddet ti'n dymuno dilyn y cymhwyster?

Internal Quality Assurance neu yn Gymraeg, Sicrhau Ansawdd Mewnol yw'r IQA. Mae datblygiadau mawr wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf ar ein llwyfan cynorthwydd dysgu City and Guilds o ran cyfieithu unedau a meini prawf.

Yn dilyn hyn roeddwn hefyd yn dymuno datblygu fy sgiliau i ddeall y broses IQA a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf bellach yn gweithio tuag at y cymhwyster hwn a hynny o ddiolch i gefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sydd wedi ariannu'r cwrs.

Pam fod y Gymraeg yn bwysig i ti?

Rwyf hefyd yn gweithio fel Swyddog Datblygu Merched y Wawr yn cefnogi aelodau'r ddau Ranbarth Ceredigion a Phenfro. Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i mi ac felly mae cael gweithio mewn swydd sydd yn rhoi cyfle imi gael defnyddio'r Gymraeg yn hanfodol.

Diddordebau: Dwi wedi bod yn astudio Metaffiseg ers blynyddoedd bellach ac yn ymddiddori yn y meddwl a sut yr ydym yn dadansoddi gwybodaeth.

Ffaith ddiddorol: Fi oedd y ferch gyntaf i gael swydd fel cogydd proffesiynol yng Ngwesty'r Dorchester ym 1977.



NODYN I'R DYDDIADUR:

5 Chwefror - Lansiad Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Adeilad y Pierhead, Caerdydd

11 Mawrth - Bwrdd Strategol Ôl-16 , 1 Canal Parade, Caerdydd

12 - 14 Chwefror - Gwyl MAP a'r Gynhadledd Theatr (i ddysgwyr/myfyrwyr) Canolfan yr Egin, Caerfyrddin

25 Mawrth - Cynhadledd Hanes, (i ddysgwyr/myfyrwyr) Amgueddfa Glannau, Abertawe

21 Mawrth - Cynhadledd Iechyd, (i ddysgwyr/myfyrwyr) Campws Prifysgol Abertawe, Caerfyrddin

18 Mehefin - Cynhadledd Doctoriaid Yfory (i ddysgwyr/myfyrwyr), Prifysgol Caerdydd

LLYSGENHADON

Fel rhan o'r cynllun hybu a hyrwyddo, mae'r Coleg Cymraeg wedi penodi'r llysgenhadon cyntaf erioed o'r sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau er mwyn helpu hyrwyddo sgiliau dwyieithrwydd. Mae cyfanswm o 41 llysgennad yn cynrychioli'r colegau a chwech yn cynrychioli prentisiaethau.

Cynhaliwyd diwrnod llwyddiannus yn Aberystwyth yn ddiweddar lle ddaethpwyd â'r llysgenhadon at ei gilydd i drafod syniadau ac i ddysgu mwy am eu rôl. Os hoffech chi glywed mwy, cysylltwch ag Elin Williams e.williams@colegcymraeg.ac.uk.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau/sylwadau neu syniadau yr hoffech eu trafod - cysylltwch â
Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk;
neu Dr Lowri Morgans l.morgans@colegcymraeg.ac.uk

NEWS

POST 16 SECTOR



January 2020



FURTHER EDUCATION STAFF OFFERED AN OPPORTUNITY TO LEARN WELSH

Work Welsh Further Education managed by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol in partnership with the National Centre for Learning Welsh and Colleges Wales is a programme designed to give lecturers in colleges the opportunity to develop their Welsh language skills for the workplace.

As a part of the programme, lecturers are offered 120 hours each, including formal lessons, one-to-one hours with the language tutor, homework tasks and language days. This year, all further education colleges in Wales are benefiting from the programme with over 250 staff members registered this year.

In December last year staff were asked about the courses and their incentive for taking part, with a high percentage of them citing that raising confidence in Welsh was their main reason but also developing their skills in conjunction with their own personal career development.

One learner noted that they are "very grateful for the opportunity to learn Welsh in such a supportive environment amongst peers and that their tutor was both fun and inspiring".

If you would like to hear more about the Work Welsh Further Education Programme, please contact Nia Brodrick: nia.brodrick@colegaucymru.ac.uk.

NEW ONLINE RESOURCES ARE NOW AVAILABLE



New open source Welsh language resources are now available on the Coleg Resource Library. All resources commissioned by the Coleg will be made available online.

HEALTH AND CARE CONFERENCE

The 2020 Coleg Cymraeg Cenedlaethol Health and Care conference will take place on the Swansea University campus in Carmarthen on Saturday, March 21, from 11.00am until 5.00pm.

Learners in the first year of their studies in colleges across Wales will be invited to the event. They will be given an opportunity to take part in practical/clinical activities across many health disciplines so that they can have an insight into the work of professional practitioners and develop an understanding of the importance of the Welsh language in Health and Care.

For more information, please contact Menai Evans m.evans@colegcymraeg.ac.uk.



GET TO KNOW HAZEL THOMAS, TRAINING OFFICER WITH CAMBRIAN TRAINING

Name: Hazel Thomas

Field: Training Officer

A little bit about your background?

I work as a training officer, supporting learners following an apprenticeship in hospitality. As part of the job and as someone who can speak Welsh, I am also one of Cambrian Training's Welsh language Champions. The company is keen to help any learners who wish to submit work through the medium of Welsh.

What is the IQA and why did you want to follow the qualification?

IQA is Internal Quality Assurance. Following significant developments to translate units and marking criteria on our City and Guilds Learning Assistant platform, I was eager to develop my skills in understanding the IQA process through the medium of Welsh.

I am now working towards this qualification, thanks to the support of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, who have kindly funded the course.

Why is the Welsh language important to you?

I also work, in part as a Development Officer for the Welsh Women's Society, Merched Y Wawr where I support members of both the Ceredigion and Pembrokeshire regions. The Welsh language is a part of me, and vitally important to me both personally and professionally and therefore being employed in a job that gives me the opportunity to use Welsh is essential.

Interests: I have been studying metaphysics for many years now and taking an interest in the mind and how we analyse information.

An interesting fact: I was the first woman to get a job as a professional chef at the Dorchester Hotel in 1977.



DIARY MARKERS:

- 5 February** - Coleg Cymraeg Cenedlaethol Strategic Plan Launch, Pierhead Building, Cardiff
- 11 March** - Post-16 Strategic Board, 1 Canal Parade, Cardiff
- 12 - 14 February** - Gŵyl MAP Conference (for learners) Canolfan yr Egin, Carmarthen
- 25 March** - History Conference (for learners), Waterfront Museum, Swansea
- 21 March** - Health and Care Conference (for learners) Swansea University campus, Carmarthen
- 18 June** - Doctoriaid Yfory Conference (for learners), Cardiff University

AMBASSADORS

As part of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol Welsh language promotional activities, we have appointed the first ever ambassadors to help promote bilingualism skills. A total of 41 ambassador's representing colleges with 6 representing apprenticeship. We held a successful training day in Aberystwyth recently where the ambassadors came together to discuss ideas and learn more about their role. If you would like to hear more about our Ambassador Scheme please contact Elin Williams e.williams@colegcymraeg.ac.uk.

If you have any questions, comments or ideas you'd like to discuss, please contact:

Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk; or Dr Lowri Morgans l.morgans@colegcymraeg.ac.uk

